**Cynnig Cymorth Teuluoedd yn Gyntaf ar gyfer COVID 19**

| Prosiect | Cynnig |
|---|---|
| Gwaith allweddol, Cymorth ar gyfer Teuluoedd a Gofalwyr Ifanc (Barnardos) | ▪ Cadw mewn cysylltiad â theuluoedd trwy'r cyswllt ffôn<br>▪ Cydlynu gwasanaethau eraill o amgylch y teulu<br>▪ E-bostio/tecsio teuluoedd<br>▪ Cyfarfodydd TAF rhithiol<br>▪ Mynediad i Fanc Bwyd<br>▪ Cydgysylltu ag ysgolion, tai ac ati.<br>▪ Darparu talebau ar gyfer llaeth, bwyd babi a chewynnau yn ôl y galw<br>▪ Darparu pecynnau llesiant<br><br>Mae oriau darparu yn parhau'r un fath ar draws y Gwasanaeth.<br><br>▪ Mae Google Translate ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer teuluoedd nad sydd yn siarad Saesneg<br><br>▪ Mae Zoom yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Cyfarfodydd Rhithiol. Dim tudalen facebook ddynodedig.<br><br>▪ Galwadau fideo Zoom / WhatsApp â theuluoedd<br><br>▪ Er bod niferoedd bychan o staff yn gweithio'n ddyddiol yn y ddwy swyddfa, mae'r mwyafrif o weithwyr yn gweithio gartref. Mae galwadau o ddrws i ddrws ar gynnydd yn dilyn Canllawiau'r Llywodraeth (***cynhelir sgrinio cyn y bydd ymweliad yn cael ei drefnu)*** |
| ***Manylion Cyswllt y Prosiect*** | ***Linda Jones 01685 725171***<br>***Linda.jones@barnardos.org.uk*** |
| Cwnsela Integredig | Mae'r *exchange* yn parhau i ddarparu gwasanaeth cwnsela. A chymorth emosiynol ar gyfer plant, pobl ifanc a rhieni. Gall rhieni a phobl ifanc gysylltu â'r gwasanaeth drwy'r wefan www.exchange-counselling.com Gall rhieni a phobl ifanc atgyfeirio'u hunain drwy'n ffurflen ar-lein drwy glicio ar y blwch 'chat.'<br><br>Mae oriau darparu arferol yn parhau.<br><br>Mae'r *exchange* yn defnyddio'r ffôn, galwadau fideo a phlatfformau ar-lein i ddarparu ei wasanaethau. Mae sesiynau wyneb yn wyneb yn bosib, o swyddfeydd GGMT.<br><br>Postio'n ddyddiol er mwyn hybu mynediad i'r gwasanaeth.<br>Facebook: exchangecounsellingservice<br>Instagram: theexchangeresource<br>Twitter:@TheExchange14 |

| | |
|---|---|
| | Cynnwys ar-lein yn cael ei greu trwy benodau YouTube sydd yn canolbwyntio ar themâu sy'n ymwneud â llesiant emosiynol. Mae gwahanol fersiynau ar gael ar gyfer Rhieni a phlant, pobl ifanc ac oedolion. Mae'r rhaglenni hyn yn gweithio'n weithredol er mwyn 'hybu gwydnwch' drwy osod heriau ac ymgysylltu pobl mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â llesiant.<br><br>Mae arolygon llesiant emosiynol yn cael eu hanfon er mwyn canfod sut y mae pobl ifanc yn ymdopi ac yn eu gwahodd i ymgysylltu.<br><br>Mae'r *exchange* wedi ailddechrau cwnsela wyneb yn wyneb yn swyddfa GGMT. Mae'n wasanaeth poblogaidd a bydd yn parhau trwy gydol yr haf a hyd nes y bydd capasiti arferol yn ailddechrau mewn ysgolion.<br><br>Rydym yn anfon holiaduron llesiant emosiynol allan yn rheolaidd er mwyn canfod sut mae pobl ifanc yn ymdopi a'u gwahodd i ymgysylltu â ni.<br><br>Rydym wedi creu rhaglenni unigryw ar gyfer teuluoedd sydd yn cael eu darparu i'r rhiant a'r plentyn drwy alwadau fideo. |
| ***Manylion Cyswllt y Prosiect*** | ***01685 724953***<br>***Emma1@exchange-counselling.wales*** |
| Perthnasau Iach | Mae atgyfeiriadau 1-1 yn cael eu gwneud trwy'r Tîm Cymorth Ieuenctid. Mae'n dulliau ymgysylltu wedi newid i ddulliau rhithiol fel dros y ffôn, neges destun, fideo Whatsapp, zoom, Facebook ac ati ond mae'n ddibynnol ar yr hyn gall y person ifanc ei gyrchu a beth y mae'n teimlo'n gyfforddus yn ei ddefnyddio.<br><br>Nid oes newid wedi bod i'r meini prawf cymhwysedd.<br><br>Mae angen defnyddio amrywiaeth o systemau'r cyfryngau cymdeithasol a sgwrs/fideo ar-lein. Rydym yn ailystyried defnyddio Zoom yn sgil pryderon ynghylch diogelwch y system.<br><br>Yn ystod y cyfnod clo, rydym wedi defnyddio capasiti tîm er mwyn cynyddu'r cymorth unigol fel rhan o'n Rhaglen ar gyfer y Teulu. Yn sgil ansicrwydd y sefyllfa, mae plant a phobl ifanc wedi derbyn mwy o gysylltiad, gweithgareddau a chymorth a wnaethpwyd yn bosibl drwy oriau Legacy.<br><br>Defnyddiwyd capasiti'r tîm er mwyn cynyddu amlder a hyd cysylltiadau â theuluoedd sy'n profi cam-drin domestig.<br><br>Bydd pob apwyntiad wyneb y wyneb yn cael eu cynnal yn y Ganolfan Deulu neu yn ein swyddfeydd yn GGMT sydd wedi cael eu hasesu o ran risg ac sydd yn barod ar gyfer ymbellhau cymdeithasol. Ailddechreuwydd cysylltiad wyneb yn wyneb.<br><br>Rydym yn ystyried defnyddio Zoom ar gyfer pobl ifanc sydd yn iau na 16 oed a hynny â goruchwyliaeth rhiant lle y mae hynny'n briodol ac yn ddiogel. |

| | |
|---|---|
| | Rydym wedi cysylltu â'r Hwb Cymorth Cynnar a Gwasanaethau Cam-drin Domestig SMT er mwyn cynyddu'r llwybr atgyfeirio er mwyn dynodi cymorth pellach ar gyfer teuluoedd sy'n agored i niwed. |
| ***Manylion Cyswllt y Prosiect*** | ***Julie Beck 01685 353999***<br>***jb@smt.org.uk*** |
| Iechyd | Ar hyn o bryd, nid oes cynnig sicr.<br><br>Derbyn atgyfeiriadau iechyd priodol gan EHH, TAF, asiantaeth sengl.<br><br>Asesiad dros y ffôn a chysylltiad wyneb yn wyneb byr (10 munud) os yw hynny'n gwbl angenrheidiol a bod yr asesiad risg yn caniatáu hynny. Gall y cyswllt fod yn y cartref os yw hynny'n ddiogel neu mewn man clinigol, diogel a drefnwyd yn barod.<br><br>Nyrs PMH ar absenoldeb salwch hirdymor ond capasiti staff llawn fel arall.<br><br>Rydym wedi blaenoriaethu pob teulu sydd yn agored i niwed<br><br>Wedi parhau â phanelau rhithiol ac wedi cyfathrebu'n effeithiol â thimau<br><br>Ffôn a nawr peth cysylltiad wyneb yn wyneb â CYP a Theuluoedd.<br><br>Y cynllun yw, cynyddu cyfarfodydd wyneb yn wyneb ond byddwn yn parhau i asesu risg a'i gadw'n beth prin. |
| ***Manylion Cyswllt*** | ***Lynne Hannington 01685 351268***<br>***Lynne.hannington@nhs.uk*** |
| Rhwydweithio i Rieni | Cynorthwyo grwpiau cyfoedion rhieni gan ddefnyddio Facebook a Facebook messenger. Mae pob aelod o'r tîm mewn cyswllt dros y ffôn â'r rheini nad sydd yn defnyddio Facebook. Rydym hefyd yn cynnal sesiynau dysgu ar-lein trwy youtube a facebook.<br><br>Gellir cysylltu hefyd trwy'r dudalen facebook os bydd rhywun am wneud hynny.<br>https://www.facebook.com/The-Parent-Network-Merthyr-Tydfil-224639304749264/<br><br>Drwy sicrhau fod teuluoedd yn gwybod ein bod ni yma i'w cynorthwyo a'u harwyddo at wasanaethau y gallai fod eu hangen arnynt. Staff ar gael rhwng 8am a 10pm i gynorthwyo, yn ôl y galw.<br><br>Ar gyfer teuluoedd allai fod wedi eu hynysu, mae'r rhwydwaith yn gadael pecynnau crefftau ar stepen y drws er mwyn galluogi sgyrsiau a chadw llygad ar y teulu.<br><br>Mae'r staff yn gweithio i gapasiti, dau weithiwr cymorth am 38 awr yn ogystal â chymorth rheoli a gweinyddu swyddfa. |

| | |
|---|---|
| | Mae pob un aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ar-lein, ers y cyfnod clo, yn unol â chanllawiau.<br><br>Ni fydd y rhwydwaith yn cynnal sesiynau grŵp wyneb yn wyneb hyd ar ôl gwyliau ysgol yr haf. Gobeithir y bydd cyfyngiadau wedi codi'n helaeth erbyn hynny. |
| ***Manylion Cyswllt y Prosiect*** | ***Michelle Jones 01443 875444***<br>***caerphillypn@btconnect.com*** |
| Tîm o amgylch y Teulu | Mae'n gwasanaeth wedi parhau i weithio yn yr un modd trwy gydol y cyfnod clo. Cynigir asesiad i deuluoedd sy'n gofyn beth sy'n bwysig iddynt dros y ffôn. Trafodir gwasanaethau cymorth cynnar â theuluoedd ac os ydynt y cytuno, rydym yn eu hatgyfeirio at wasanaethau eraill.<br><br>Yn ychwanegol i'r gwaith arferol, cymerodd yr hyb gyfrifoldeb dros 23 achos na lwyddwyd i'w dynodi i brosiectau yn sgil y clo a'i effaith ar staffio ac ail-leoli gweithwyr iechyd. Sicrhaodd gweithwyr yr hyb eu bod mewn cysylltiad rheolaidd â'r teuluoedd yma er mwyn ceisio osgoi cynnydd.<br><br>Mae'r cynllun adfer yn gweithio'n dda ac mae staff yn gweithio o gartref am 50% o'r wythnos ac o'r o'r swyddfa am y 50% arall.<br><br>Swydd wag cydlynnyd TAF ers ymddiswyddiad mis Mai.<br><br>Mae ffonau'r swyddfa wedi cael eu trosglwyddo i ffonau symudol ac nid oes swyddi cyflenwi yn y swyddfa.<br><br>Mae'r EHH wedi parhau i weithredu'r rhan fwyaf o'i waith ar y ffôn neu ar feddalwedd fel Microsoft Teams.<br><br>Mae'r EHH wdi gweithio â Phenaethiaid a Swyddogion Cydgysylltu Teuluoedd er mwyn hybu'r gwasanaeth yn ystod y cyfnod. Mae ysgolion wedi postio gwybodaeth pamffledi EHH ar eu tudalennau Facebook a twitter. Cysylltwyd â chydweithwyr y tydydd sector a diweddarwyd fod yr EHH yn parhau i fod ar agor ac maent hwy hefyd wedi rhannu pamffledi gwybodaeth.<br><br>Gwnaethwyd benderfyniad i ddynodi achosion ar e-bost yn ystod cyfnodau cychwynnol y cyfnod clo. Yn ystod y cyfnod hwn, llwyddodd yr EHH i wneud penderfyniad, yn seiliedig ar wybodaeth i'r asiantaeth Gweithio Allweddol priodol gan adlewyrchu ar benderfnyiadau blaenorol y panel.<br><br>Panel TAF yn cael ei gynnal yn rhithiol, bob pythefnos ers 6 Mai 2020<br><br>Mae cyfarfodydd ag asinataethau eraill yn cael eu cynnal ar blatfformau eraill fel Microsoft Teams. |
| ***Manylion Cyswllt*** | ***Helen Lang 01685 724503***<br>***Helen.lang@merthyr.gov.uk*** |

| | |
|---|---|
| Rhianta | Rydym ar hyn o bryd yn cynnig cymorth rhianta i bob teulu trwy MS teams, galwadau ffôn ac ymyriadau ar e-bost. Bydd y cymorth yn parhau i gael ei gynnig ar sail un i un ac mewn grŵp lle y mae hynny'n bosibl.<br><br>Mae gennym grwpiau rhithiol lle y gall rhieni fewngofnodi a chyfranogi â rhieni eraill.<br><br>Mae oriau'r ddarpariaeth yn parhau i fod yr un fath.<br><br>Ar hyn o bryd, mae'r prosiect yn derbyn atgyfeiriadau gan bartneriaid presennol, fodd bynnag, yn sgil y ffaith fod staff yn gweithio o gartref, mae'n rhaid iddynt fod yn electronig fel y gallwn rannu'r atgyfeiriad a gweithio â'r teulu.<br><br>Rydym ar hyn o bryd yn defnyddio dulliau cymorth electronig trwy MS teams ar gyfer y teuluoedd hynny sydd am gyfranogi. Y tymor nesaf, byddwn yn defnyddio Facebook er mwyn ymgysylltu â theuluoedd a hynny drwy rannu llawer o wybodaeth a darparu ffrydiau byw ar wahanol bynciau allai teuluoedd fod yn eu hwynebu.<br><br>Rydym am ddefnyddio dau weithiwr ar gyfer pob ffrwd fyw a fydd yn creu amgylchedd lle y gall rhieni ymgysylltu a derbyn cyngor.<br><br>Rydym ar hyn o bryd yn hybu'r safle *think family parenting* gan ein bod yn credu ei bod yn adnodd gwych i rieni ar hyn o bryd.<br><br>Fel tîm, mae pob un ohonom wedi gweithio o gartref ers dechrau Covid 19 ac rydym yn awr yn ystyried sut i ddod â staff yn ôl yn ddiogel i'r swyddfa. Bydd pob un aelod o'r staff yn gweithio ar system rota, allan o'r swyddfa erbyn mis Medi er mwyn cydymffurfio â phlant yn dychwelyd i'r ysgol.<br><br>Ni fydd y tîm yn gweithredu ymwelaiadu wyneb yn wyneb yn y cartref nes y bydd pob un ohonynt yn ôl yn y swyddfa erbyn canol mis Medi a bod asesiad risg wedi ei gwblhau.<br><br>Yn dilyn canllawiau lleol gan Reolwr Teuluoedd yn Gyntaf y cytunwyd arnynt gan yr arweinwyr, bydd y Tîm Rhianta yn cyflwyno gwneud galwadau llesiant i gartrefu rhieni lle y bydd hynny'n briodol. Bydd y galwadau llesiant hyn yn dilyn system brysbennu a osodir yn y canllawiau a'r gweithiwr yn unig a fydd yn cael mynediad i erddi rhieni ac yn gwirio fod pawb yn iawn. Ni chaniateir mynediad i'r cartref. |
| ***Ydym ar hyn o bryd yn defnyddio dulliau*** | ***Antony Mee 01685 727395***<br>***Antony.mee@merthyr.gov.uk*** |
| Cymorth Ieuenctid | • Staff yn parhau i weithio ag achosion agored fel bod pob cynllun wedi'u diweddaru a'u cofnodi. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys arwyddbostio, atgyfeiriadau i asiantaethau eraill, sesiynau un i un, cwblhau adolygiadau CAF ac ati. |

| | |
|---|---|
| | • Mae staff yn cwblhau sesiynau Cadw Mewn Cysylltiad (KIT) wythnosol ac mae tasgau'n cael eu dyrannu o'r cyfarfod Teuluoedd sy'n Agored i Niwed wythnosol.<br>• Mae Ula wedi bod yn cynorthwyo teuluoedd Pwylaidd sy'n agored i niwed er mwyn cynorthwyo asiantaethau eraill â chyfieithu. Mae Ula yn darparu cymorth uniongyrchol a KIT i rhai o'r teuluoedd hyn yn ogystal.<br>• Mae datblygiad ymyriadau newydd yn mynd yn eu blaen.<br>• Mae staff yn cydgysylltu'n rheolaidd ag asiantaethau eraill a gwasanaethau arbenigol.<br>• Mae sesiynau un i un yn cael eu cynnig ar y ffôn / galwad fideo.<br>• Mae staff yn gweithio holl oriau eu contractau. Mae ganddynt ddefnydd llawn o TG a ffôn.<br>• Datblygwyd 2 adnodd ar-lein a'u hanfon at bobl ifanc. 1 ar Emosiynau a phoeni ac un arall i ddisgyblion sy'n pontio o Flwyddyn 6 i 7.<br>• Mae gwerth tynnu sylw at y ffaith fod galwadau fideo yn costio i rieni ac nid oes gan bob teulu wi fi / data sy'n caniatáu i hyn ddigwydd. Mae'r mwyafrif o deuluoedd ond eisiau galwadau ffôn / tecst gan nad ydynt yn costio ac yn defnyddio cyfyngiadau data. |
| ***Manylion Cyswllt y Prosiect*** | ***Lisa Bruford 01685 725197***<br>***Lisa.bruford@merthyr.gov.uk*** |
| Datblygiad Iaith Gynnar | Dechreuodd y tîm DIG fodel newydd o weithio er mwyn ceisio sicrhau fod teuluoedd ledled Merthyr Tudful yn derbyn gwybodaeth amserol a chyngor ar ddatblygiad iaith gynnar.<br><br>Trwy gydol y cyfnod, parhaodd y staff i fod mewn cyswllt wythnosol (KIT) â phob teulu sydd eisoes wedi bod yn mynychu rhaglenni iaith gynnar neu wedi derbyn ymyriad ers Ionawr 2020.<br><br>Mae'r tîm wedi ceisio arwyddbostio at wasanaethau priodol gan wneud atgyfeiriadau lle y mae hynny'n bosibl.<br><br>Anfonwyd cylchlythyr misol at bob teulu KIT yn cynnwys cynghorion ar gyfer datblygiad iaith gynnar yn ogystal ag adnodd am ddim er mwyn annog teuluoedd i gyfranogi'n weithredol yn natblygiad iaith gynnar eu plentyn.<br><br>Mae'r defnydd o Facebook wedi bod yn llwyddiannus iawn er mwyn rhannu negeseuon iaith gynnar, syniadau ac adnoddau â theuluoedd, sesiynau Elkan Gadewch i ni Siarad â'ch Babi ac yn dily ymateb cadarnhaol gan deuluoedd, rydym ar hyn o bryd yn arbrofi â 'Sesiynau Byw' ar Microsoft Teams ar gyfer Rhythm ac Odl a'r rhaglen Sêr Bach. |

| | |
|---|---|
| | Cafwyd toriad mewn sesiynau wyneb yn wyneb a chynhaliwyd sesiynau ar-lein gan y Tîm DIG.<br><br>Bydd unrhyw atgyfeiriadau newydd gan Ymwelwyr Iechyd neu Seicolegwyr Addysg yn cael eu blaenoriaethu wedi gwyliau'r haf. |
| ***Manylion Cyswllt y Prosiect*** | ***Kath Bowen 01685 727381***<br>***Kath.bowen@merthyr.gov.uk*** |
| Cynhwysiant | ▪ Gall teuluoedd yn awr gael mynediad i'w lleoliadau gofal plant fel ysgolion cyn oed ysgol a meithrinfeydd.<br>▪ Bydd plant sydd yn derbyn cymorth 1:1 yn ei dderbyn o hyd yn y lleoliad.<br>▪ Gellir gwneud atgyfeiriadau ar gyfer cymorth dwysach a'u hystyried o flaen y panel.<br>▪ Mae Cadw mewn Cysylltiad yn parhau.<br>▪ Gall nifer oriau'r plentyn amrywio gan fod cyfyngiadau ar niferoedd y plant ymhob lleoliad. Mae pob lleoliad yn wahanol ac yn gweithredu canllawiau perthnasol.<br>▪ Mae atgyfeiriadau Cynhwysiant y Blynyddoedd Cxynnar yn parhau ac mae panelau hefyd wedi parhau yn ystod y misoedd diwethaf.<br>▪ 15 awr, capasiti staff wedi parhau.<br>▪ Bydd y Cyfryngau Cymdeithasol yn cael eu defnyddio i hybu a darparu negeseuon allweddol ar y gwasanaethau sydd ar gael i deuluoedd.<br>▪ Byddwn yn dechrau darparu cymorth wyneb yn wyneb o fis Medi.<br>▪ Gan fod gan y mwyafrif o blant anableddau sylweddol gallai rhieni fod yn gyndyn i adael i mi ymweld â'u cartrefi gan fod y plant yn ynysu a bod ganddynt lythyron sydd yn nodi hynny. |
| ***Manylion Cyswllt y Prosiect*** | ***Carly Smith 01685 727374***<br>***Carly.smith@merthyr.gov.uk*** |